Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Datganoli,
Democratiaeth a
Chyflawni

# Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol

## Arolwg Ymgynghori

Dyddiad cyhoeddi: 3 Chwefror 2015
Angen gweithredu erbyn: 23:59 ar 28 Ebrill 2015

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynghylch dyfodol Llywodraeth Leol yw'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'.<br>Mae'r Papur Gwyn yn egluro cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio yn y meysydd canlynol: democratiaeth leol, rolau a chydnabyddiaeth ariannol Aelodau Etholedig ac uwch-swyddogion, llywodraethu cymunedol a Chynghorau Cymuned, hawliau cymunedau, gwelliant corfforaethol, perfformiad gwasanaethau, craffu, archwilio, arolygu a rheoleiddio, a chyllid. |
| **Sut i ymateb neu am ragor o wybodaeth** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nifer helaeth o faterion. Mae llawer ohonynt o ddiddordeb i'r cyhoedd ond mae rhai ohonynt yn dechnegol ac mae'n bosibl mai dim ond Awdurdodau Lleol fydd â diddordeb ynddynt. Rydym wedi creu holiadur ar y we er mwyn ei gwneud yn haws inni gasglu ymatebion a'u dadansoddi.<br>Gallwch ddewis ymdrin â'r holl faterion a godir gan y Papur Gwyn hwn neu gallwch ddewis cwblhau fersiwn fyrrach o'r holiadur, sy'n canolbwyntio ar y prif faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Byddwch yn gallu dewis yr opsiwn yr ydych yn ei ffafrio pan fyddwch yn dechrau llenwi'r holiadur. Mae fersiwn Word ar gael hefyd ond byddem yn annog ymatebwyr yn daer i ddefnyddio'r fersiwn sydd ar-lein.<br>Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch y ffurflen ar-lein neu gofynnwch am gopi papur o'r holiadur , a'i ddychwelyd<br>naill ai drwy e-bost i RLGProgramme@cymru.gsi.gov.uk<br>neu drwy'r post i<br>Diwygio Llywodraeth Leol<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ffurf fersiwn fyrrach sydd mewn Cymraeg clir ac ar ffurf fersiwn sy'n addas i bobl ifanc. Mae'r rhain i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru.<br>Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill os gofynnir amdanynt. |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni<br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff o Lywodraeth Cymru sydd yn ymdrin â'r materion dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Mae'n bosibl y bydd rhai aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, i'w helpu i gynllunio ymgyngoriadau yn y dyfodol.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn dal yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sydd gan nifer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i chadw'n ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu a ddylid ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn am gael peidio cyhoeddi ei enw neu ei gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, ar adegau gallai rhesymau pwysig godi a fyddai'n ein gorfodi i ddatgelu enw a chyfeiriad unigolyn, hyd yn oed pe bai wedi gofyn am gael peidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

Dyma'r arolwg ymgynghori sy'n gysylltiedig â'r ddogfen *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*. I ddechrau gofynnir rhai cwestiynau er mwyn canfod ai unigolyn, corff cynrychioliadol neu fath arall o sefydliad yr ydych chi. Wedyn, gofynnir cwestiynau'n

gysylltiedig â themâu yn y Papur Gwyn. Mae rhai cwestiynau yn rhai sy'n gofyn am ateb cadarnhaol/negyddol, rhai yn gofyn i chi fynegi I ba raddau yr ydych yn cytuno â datganiad ar hyd graddfa 5 pwynt, a rhai yn gofyn am eich barn gan adael bocs i chi roi eich sylwadau.

## Cwestiynau Cychwynnol

| **Rwyf yn ymateb ar ran:** | | | |
|---|---|---|---|
| 1.1 | ☐ | Aelod o'r cyhoedd ydw i. Dyma fy marn bersonol | Ticiwch er mwyn dangos i ba ystod oedran yr ydych yn perthyn:<br>☐ Dan 18 ☐ 26-35 ☐ 46-55 ☐ 65+<br>☐ 18-25 ☐ 36-45 ☐ 56-65 ☐ Mae'n well gen i beidio dweud<br>Dywedwch wrthym ym mha Ardal Awdurdod Lleol yr ydych yn byw: |
| 1.2 | ☐ | Awdurdod Lleol | Nodwch pa Awdurdod Lleol yr ydych yn ei gynrychioli |
| 1.3 | ☐ | Cyngor Cymuned | Nodwch pa Gyngor Cymuned yr ydych yn ei gynrychioli |
| 1.4 | ☐ | Grŵp Gwleidyddol / Plaid Wleidyddol | Nodwch enw'r blaid yr ydych yn ei chynrychioli |
| 1.5 | ☐ | Corff cynrychioliadol, Cymdeithas neu Gorff Proffesiynol | Nodwch enw'r corff |
| 1.6 | ☐ | Aelod Etholedig | Nodwch pa Awdurdod Lleol neu Gyngor Cymuned yr ydych yn aelod ohono |
| 1.7 | ☐ | Y Trydydd Sector | Nodwch enw'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli |
| 1.8 | ☐ | Undeb Llafur | Nodwch enw'r Undeb Llafur yr ydych yn ei gynrychioli |
| 1.9 | ☐ | Asiantaeth o'r Llywodraeth / Arall o'r Sector Cyhoeddus | Nodwch enw'r sefydliad yr ydych yn ei gynrychioli |
| 1.10 | ☐ | Arall | Rhowch wybodaeth ychwanegol |
| 1.11 | Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu grŵp cynrychioliadol, sut y gwnaethoch chi gasglu safbwyntiau eich aelodau neu aelodau o'r cyhoedd wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn? | | |
| 1.12 | Dywedwch wrthym pa ddogfen yr ydych wedi'i darllen: | ☐ | *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i bobl leol* (Papur Gwyn) |
| | | ☐ | *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i bobl leol* (Crynodeb Pob Dydd) |
| | | ☐ | *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i bobl leol* (Fersiwn i Bobl Ifanc) |
| **Manylion Cyswllt** | | | |
| 1.13 | Enw | | |
| 1.14 | Cyfeiriad post | | |
| 1.15 | Rhif ffôn | | |
| 1.16 | Cyfeiriad e-bost | | |
| **Datganiad** | | | |
| 1.17 | Mae ymgyngoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br>**Pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn ddienw, ticiwch yma**: | ☐ | |

## Pennod 2: Cydbwyso Cyfrifoldebau Llywodraeth Genedlaethol a Llywodraeth Leol

Mae Pennod 2 yn trafod y berthynas rhwng gwahanol elfennau o lywodraeth yng Nghymru, a datblygiad hyn ers datganoli ym 1999. Mae'n egluro rôl Llywodraeth Cymru o ran rhoi arweiniad, gosod safonau a diffinio nifer cyfyngedig o ddisgwyliadau cenedlaethol. Mae hefyd yn archwilio rôl Llywodraeth Leol fel gweithredwr newid yn ei hardal leol, yn ei pherthynas â gwasanaethau cyhoeddus eraill ac ar raddfa ranbarthol, yn enwedig rhanbarthau'r dinasoedd.

| Statws Awdurdodau Diwygiedig | | | |
|---|---|---|---|
| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
| 2.1 Ydych chi'n meddwl y dylai pob Awdurdod Lleol yng Nghymru gael ei adnabod fel Cyngor Sir? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.2 Os nad ydych chi, pam eich bod yn meddwl y dylid caniatáu rhoi enwau eraill ar Awdurdodau diwygiedig? | | | |
| | Dylent | Na ddylent | Ddim yn gwybod |
| 2.3 A ddylai Awdurdodau Lleol allu enwebu cadeirydd y Cyngor fel Maer? | ☐ | ☐ | ☐ |
| **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** | | | |
| | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
| 2.4 A ddylid rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.5 Os felly, pa gyfyngiadau y dylid eu gosod ar hynny? | | | |
| **Y Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan** | | | |
| 2.6 A ddylid adolygu darpariaethau Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, fel maent yn berthnasol i Awdurdodau Lleol? | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
| | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.7 Oes unrhyw faterion yr hoffech eu codi mewn perthynas â Dadreoleiddio a Chontractio Allan? | | | |
| **Cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol** | | | |
| 2.8 Allwch chi nodi unrhyw agweddau penodol ar weithdrefnau swyddogol y gellid eu newid fel bod Awdurdodau Lleol yn gweithredu mewn modd mwy ystwyth, agored a thryloyw? | | | |

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.9 *Dylai Awdurdodau Lleol nodi mewn iaith glir eu gwerthoedd a'r egwyddorion fydd yn sail i'r modd y maent yn gweithredu* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.10 *Dylai Awdurdodau Lleol nodi sut maent yn bwriadu meithrin perthynas â'u cymunedau* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Beichiau deddfwriaethol ac adolygu Deddfwriaeth Llywodraeth Leol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
| 2.11 *Mae'n werth adolygu'r corff o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gweinyddu Llywodraeth Leol gyda golwg ar gyfuno a symleiddio yn y tymor hwy* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 2.12 Oes gennych chi unrhyw gynigion eraill y dylid eu hystyried o ran ymestyn pwerau neu swyddogaethau Llywodraeth Leol? | | | | | |

## Pennod 3: Adnewyddu Democratiaeth

Ym Mhennod 3, cyfeiriwn at yr angen am fwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Aelodau Etholedig a'r Prif Weithredwr. Nodir hefyd fanteision sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith Cynghorwyr. Rydym hefyd yn trafod yr angen i leihau cost gwleidyddiaeth a rheolaeth mewn Llywodraeth Leol ac i sicrhau mwy o gysondeb wrth benodi a thalu uwch swyddogion.

| Etholiadau Llywodraeth Leol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bob 4 blynedd | Bob 5 mlynedd | Ddim yn gwybod |
| 3.1 | Pa mor aml y dylid cynnal etholiadau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru? | ☐ | ☐ | ☐ |
| | | Dylent | Na ddylent | Ddim yn gwybod |
| 3.2 | A ddylai Awdurdodau Lleol ethol Aelodau ar drefniant treigl, er enghraifft fesul traean? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.3 | Os felly, beth fyddai’r ffordd orau o weithredu hyn yn ymarferol? | | | |

| Diffinio Rolau a Chyfrifoldebau'r Arweinydd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
| 3.4 | *Os bydd rhywun yn ymgeisio i fod yn Arweinydd Cyngor, dylai gyflwyno maniffesto ysgrifenedig yn nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.5 | *Os bydd rhywun yn ymgeisio i fod yn Arweinydd Cyngor, dylai gyflwyno'r maniffesto hwn ar lafar gerbron y Cyngor, cyn cynnal yr etholiad* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.6 | *Dylai Arweinydd Cyngor lunio adroddiad blynyddol yn nodi'r hyn a gyflawnwyd yn erbyn y maniffesto* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| 3.7 | A ddylid diffinio rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau'r Arweinwyr/Meiri Etholedig mewn deddfwriaeth? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.8 | A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd osod amcanion ar gyfer Aelodau Cabinet? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.9 | A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd osod amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.10 | A ddylid rhannu'r amcanion hyn â'r cyhoedd? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.11 | A ddylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd gyflwyno adroddiad gerbron y Cyngor llawn ar gyflawni'r amcanion hyn? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.12 | A oes unrhyw ddyletswyddau cyffredinol eraill y dylid eu cynnwys yn rôl yr Arweinydd? | | | |

| Diffinio Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Cabinet | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
| 3.13 | A ddylid diffinio rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau cyffredinol Aelodau Cabinet mewn deddfwriaeth? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.14 | Pa ddyletswyddau cyffredinol y dylid eu cynnwys yn rhan o rôl Aelod Cabinet? | | | |

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.15 *Dylid sicrhau mwy o gysondeb yn nifer y swyddi Cabinet yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.16 A ddylid lleihau'r uchafswm o Aelodau Cabinet sy'n gwasanaethu Awdurdod Lleol (10 ar hyn o bryd)? | ☐ | ☐ | ☐ |

3.17 Fel uchafswm, faint o Aelodau Cabinet y dylid eu cael?

3.18 Beth yw'r rheswm am eich awgrym?

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.19 *Dylid ystyried rhai swyddi Cabinet yn swyddi 'Dirprwy' neu'n 'Is-swyddi' , fel cyfle i ddatblygu cnewyllyn ehangach o arweinwyr gwleidyddol i'r dyfodol* | ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.20 *Dylid ystyried swyddi 'Dirprwy' neu 'Is-swyddi' yn swyddi rhan-amser er mwyn adlewyrchu'r lefel is o gyfrifoldeb* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.21 A ddylid gofyn i'r Academi Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried rhaglen ddatblygu i gefnogi arweinwyr gwleidyddol y dyfodol? | ☐ | ☐ | ☐ |

3.22 Beth yw eich sylwadau ar y ffurf y dylai raglen ddatblygu Academi Gwasanaethau Cyhoeddus gymryd?

## Diffinio Rolau a Chyfrifoldebau Aelodau Etholedig

| | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.23 A ddylid diffinio rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau Aelodau Etholedig mewn deddfwriaeth? | ☐ | ☐ | ☐ |

| Beth ddylid ei gynnwys yn rhan o rôl Aelod Etholedig? | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.24 Cyfathrebu yn rheolaidd ag etholwyr | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.25 Cymorthfeydd rheolaidd | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.26 Cymryd rhan mewn Llywodraethu Cymunedol | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.27 Cymryd rhan mewn pwyllgorau | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.28 Mynychu sesiynau sgiliau hyfforddiant craidd | ☐ | ☐ | ☐ |

3.29 A oes unrhyw agweddau eraill y dylid eu cynnwys yn rhan o rôl yr Aelod Etholedig?:

| | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.30 A ddylai fod yn ofynnol i bob Aelod Etholedig lunio Adroddiad Blynyddol? | ☐ | ☐ | ☐ |

**Pwyllgorau Safonau**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.31 *Dylid ychwanegu at bwerau Pwyllgorau Safonau i'w galluogi i ystyried achosion lle ceir honiad nad yw Cynghorydd wedi cyflawni ei ddyletswyddau i raddau boddhaol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

3.32 Os ydych yn cytuno, sut y dylid ychwanegu at eu pwerau?

3.33 Pa gosbau y gellid eu sefydlu ar gyfer Cynghorwyr nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau i raddau boddhaol?

| | Oes | Nagoes | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.34 Os na fydd prosesau mewnol wedi'u gweithredu i raddau boddhaol, a oes rôl i gorff annibynnol? | ☐ | ☐ | ☐ |

3.35 Os oes, ym mha amgylchiadau y dylid cynnwys y corff?

3.36 Pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ymgymryd â'r rôl hon?

**Galw yn ôl**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.37 *Dylid sefydlu cyfundrefn a fyddai'n galluogi'r cyhoedd i alw Cynghorydd yn ei ôl yn ystod ei gyfnod yn y swydd, a sbarduno is-etholiad* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

3.38 Sut gallai hyn weithio'n ymarferol?

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.39 *Dylid gosod dyletswydd ar Arweinwyr i roi sylw i amrywiaeth wrth benodi eu Cabinet* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.40 *Os na fydd modd cynnig Cabinet amrywiol, dylai Arweinwyr ystyried cyfethol aelodau i roi cyngor a chefnogi penderfyniadau* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

3.41 Os ydych o blaid cyfethol i'r Cabinet, beth fyddai'r dull gorau o weithredu hyn yn ymarferol?

3.42 Sut y dylai fod yn ofynnol i Arweinwyr Grŵp ystyried amrywiaeth?

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.43 *Dylid gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ennyn diddordeb pobl mewn democratiaeth* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.44 *Dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu Cynghorau Ieuenctid* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.45 *Dylai fod yn ofynnol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *ryddhau staff i wasanaethu fel Cynghorwyr Awdurdodau Lleol* | | | | | |
| 3.46 *Dylid annog sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus datganoledig i ryddhau staff i wasanaethu fel Cynghorwyr Cymuned* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.47 *Dylid annog pob sefydliad (cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector) i ryddhau staff i wasanaethu fel Cynghorwyr* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Aelodau Etholedig

3.48 Pa faterion dylid eu hystyried wrth adolygu cydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr?

## Nifer yr Aelodau Etholedig

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.49 Ydych chi'n cytuno y dylid lleihau nifer yr Aelodau Etholedig yng Nghymru? | ☐ | ☐ | ☐ |

3.50 Pa faterion y dylid eu hystyried wrth gysudro nifer yr Aelodau Etholedig?

## Cyfyngu ar Dymhorau Swydd Aelodau Etholedig

| Ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol fel uchafswm tymhorau swydd: | Ydw | Nac ydw | Uchafswm arall | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|
| 3.51 Aelodau Etholedig (5 tymor yn olynol) | ☐ | ☐ | Nodwch | ☐ |
| 3.52 Aelodau Cabinet (2 dymor yn olynol) | ☐ | ☐ | Nodwch | ☐ |
| 3.53 Arweinwyr / Meiri Etholedig (2 dymor yn olynol) | ☐ | ☐ | Nodwch | ☐ |

## Cymwysterau Etholiadol

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.54 ***Ni*** *ddylai Aelodau sy'n gwasanaethu Awdurdodau Lleol gael gwasanaethu fel Aelodau Cynulliad a pharhau â'u swydd yn yr Awdurdod Lleol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.55 *Dylai cyflogeion Llywodraeth Leol, ag eithrio'r rhai mewn swyddi sy'n wleidyddol gyfyngedig, gael sefyll mewn etholiad i'w Hawdurdod eu hunan a dim ond ymddiswyddo os cânt eu hethol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Rôl a Chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr

| | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.56 A ddylid diffinio rôl Prif Weithredwr Awdurdod Lleol mewn deddfwriaeth? | ☐ | ☐ | ☐ |
| A ddylid cynnwys y canlynol yn rhan o rôl y Prif Weithredwr: | | | |
| 3.57 Cyfrifoldeb fel Pennaeth Gwasanaeth Taledig? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.58 Cyfrifoldeb fel Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.59 Cyfrifoldeb am berfformiad a gwella? | ☐ | ☐ | ☐ |
| A ddylid cynnwys y gofynion canlynol yn rhan o rôl y Prif Weithredwr: | | | |
| 3.60 Trefnu i greu cynllun corfforaethol? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.61 Trefnu i gynnal hunanasesiadau blynyddol o berfformiad corfforaethol a pherfformiad gwasanaethau? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.62 Trefnu i hyrwyddo democratiaeth mewn ardal Awdurdod Lleol? | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3.63 | Comisiynu adolygiad gan gymheiriaid bob dwy flynedd a llunio adroddiad i'r Cyngor ar gamau i'w cymryd yn dilyn argymhellion yr adolygiad gan gymheiriaid? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.64 | Sefydlu system rheoli perfformiad ar gyfer holl gyflogeion yr Awdurdod Lleol? | ☐ | ☐ | ☐ |

## Cyfyngu ar Gyfnod Swydd Prif Weithredwr

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.65 *Dylid rhoi trefniadau ar waith i gyfyngu ar y cyfnod hwyaf y gall Prif Weithredwr wasanaethu* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.66 *Dylid rhoi trefniadau ar waith i bennu cyfnod a fyddai'n arwain at adolygiad cyn y gellid ystyried ailbenodi Prif Weithredwr Awdurdod Lleol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| A ddylid gofyn i'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus archwilio: | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 3.67 Trefniadau ar gyfer penodi Prif Weithredwyr? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.68 Pa mor briodol yw cyfyngu ar hyd penodiad Prif Weithredwr? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.69 Pa mor briodol yw pennu cyfnod a fyddai'n arwain at adolygiad cyn y gellid ailbenodi? | ☐ | ☐ | ☐ |

## Taliadau Uwch Reolwyr

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.70 *Dylid cael mwy o gysondeb yn nifer y swyddi uwch reolwyr yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.71 *Dylid cael mwy o gysondeb yng nghyflogau swyddi uwch swyddogion (gan gynnwys swyddi Prif Weithredwyr) yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.72 *Dylid cael fframwaith cenedlaethol yn ganllaw ar gyfer graddfeydd cyflog holl swyddi prif swyddog* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.73 *Dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgynghori â chorff cynghori annibynnol ar gyflogau'r holl brif swyddogion* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

3.74 Pa fecanwaith fyddai'n briodol er mwyn i Awdurdodau Lleol ymgynghori â chorff cynghori anibynnol ar gyflogau’r holl brif swyddolgion?

## Penodi Uwch Swyddogion

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.75 *Dylid cael mwy o gysondeb wrth benodi i swyddi uwch swyddog (gan gynnwys swyddi Prif Weithredwr) yn yr Awdurdodau Lleol diwygiedig* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| O'r cyntaf i'r olaf, pa un o'r canlynol yw'r mecanwaith mwyaf priodol i gefnogi penodiadau uwch swyddog: | 1af | 2il | 3ydd | 4ydd |
|---|---|---|---|---|
| 3.76 Byddai Comisiwn Penodiadau Sector Cyhoeddus yn sicrhau bod gan bob uwch swyddog y sgiliau a'r cymwyseddau cywir o ran arweinyddiaeth. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Byddai uwch swyddogion yn cael eu cyflogi ar sail gyffredin a'u gyrru i sefydliad, ac unigolion yn cael eu symud ar draws y gwasanaeth cyhoeddus fel bo'r gofyn (yn debyg i astudiaeth achos Seland Newydd). | | | | |
| 3.77 | Byddai Comisiwn Penodiadau Sector Cyhoeddus yn sicrhau bod gan bob uwch swyddog y sgiliau a'r cymwyseddau cywir o ran arweinyddiaeth.<br>Byddai Awdurdodau Lleol wedyn yn penodi o gronfa o ymgeiswyr cymeradwy. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.78 | Fframwaith Asesu Cyffredin a phroses er mwyn sefydlu dull cyson o benodi uwch swyddogion.<br>Byddai Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am benodi aelodau uwch o staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.79 | Arall | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 3.80 | Pa fecanwaith arall y dylid ei ddefnyddio er mwyn cefnogi apwyntio aelodau staff uwch? | | | | |

## Pennod 4: Cysylltu â Chymunedau

Mae Pennod 4 yn egluro ein gweledigaeth am berthynas newydd rhwng cymunedau lleol a Llywodraeth Leol yng Nghymru, lle bo Awdurdodau mwy yn nes at eu cymunedau nag y maent ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys trafod rôl Aelodau Etholedig o ran arwain hyn. Rydym hefyd yn trafod yr angen i godi uchelgais Cynghorau Cymuned fel eu bod mewn sefyllfa well i gyflenwi gwasanaethau pwysig i'r gymuned yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu adeiladu eu capasiti a'u gallu, yn ogystal â chryfhau eu trefniadau llywodraethu a'u hymgysylltiad â gwasanaethau eraill a'r trydydd sector.

| **Llywodraethu Cymunedol a Arweinir gan Aelodau** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
| 4.1 | *Dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu, mabwysiadu a gweithredu dull rheoli cymdogaeth neu ddull tebyg o ymgysylltu â dinasyddion er mwyn nodi, blaenoriaethu ac ymdrin â materion lleol neilltuol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.2 | *Mae dull cymdogaeth neu ardal gynhwysol a chyfranogol, a arweinir gan Aelodau Etholedig, yn fodel llywodraethu cymunedol y dylai pob Awdurdod Lleol yng Nghymru ei fabwysiadu* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.3 | *Dylid rhoi lle cyfartal i gyrff cymunedol, y trydydd sector neu wasanaethau eraill cyhoeddus mewn dulliau ardal cymdogaeth* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.4 | *Dylai Awdurdodau Lleol fod yn gyfrifol am ddyluniad llywodraethu cymunedol yn eu hardal* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.5 | *Mae llywodraethu cymunedol a arweinir gan Aelodau yn rhan annatod o ddemocratiaeth leol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.6 | *Dylai Cymunedau a gaiff eu dynodi o dan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fod yn sail ar gyfer Byrddau Ardal Awdurdodau Lleol a arweinir gan yr Aelodau yn y dyfodol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.7 | *Dylai dulliau ardal cymdogaeth allu cynnal cyllidebau seiliedig ar ardal* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.8 | *Dylai Awdurdodau Lleol geisio rhesymoli nifer y trefniadau partneriaeth y mae'n ymwneud â hwy* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.9 | *Dylid sefydlu fframwaith cenedlaethol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol roi system llywodraethu cymunedol ar waith sy'n bodloni canllawiau penodol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.10 | Beth ddylid ei gynnwys mewn fframwaith cenedlaethol? | | | | | |
| 4.11 | Beth yw'r cymorth gorau y gall Aelodau Etholedig ei roi er mwyn helpu eu cymunedau i gyflawni mwy? | | | | | |
| **Adolygiad o Gynghorau Cymuned** | | | | | | |

| | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 4.12 A ddylai Awdurdodau Lleol adolygu rôl, strwythur, cwmpas a threfniadau llywodraethu Cynghorau Cymuned yn eu hardaloedd? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.13 A ddylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau erbyn 2022? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.14 Os ddim, pa mor fuan y dylid gweithredu diwygiadau ar raddfa gymunedol? | | | |

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.15 *Dylid uno neu ehangu ardaloedd Cynghorau Cymuned* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Cynghorau Cymuned Cymwys**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.16 *Dylai Cynghorau Cymuned orfod sefyll profion cymhwysedd er mwyn ennill mwy o hawliau a chyfrifoldebau* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.17 *Dim ond Cynghorau Cymuned 'cymwys' yng Nghymru ddylai ennill pŵer cymhwysedd cyffredinol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

4.18 Os rhoddir pŵer cymhwysedd cyffredinol i Gynghorau Cymuned yng Nghymru, pa gyfyngiadau y dylid eu gosod ar hynny?

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: *Dylid cynnal y profion canlynol ar Gynghorau Cymuned* | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.19 *Prawf Democratiaeth: dylai o leiaf dau dreian o Gynghorwyr ar Gyngor Cymuned gael eu hethol mewn etholiad cyffredin neu is-etholiad* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.20 *Prawf Gallu: rhaid i'r Cyngor Cymuned gael clerc a chanddo gymwysterau proffesiynol perthnasol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.21 *Prawf Capasiti: Mae gan y Cyngor gyllideb flynyddol o £200,000 o leiaf* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.22 *Prawf Safonau: mae'r Cyngor Cymuned wedi gweithredu cyfundrefn reoli ariannol gadarn a rheolaeth fewnol yn unol â gofynion statudol, ac mae'n cyrraedd safonau eraill, megis mae ganddo wefan ble mae'n cyhoeddi agendâu, munudau a chyfrifon, a gellir ei gyrraedd drwy ebost* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

4.23 A oes unrhyw brofion 'cymhwysedd' eraill fyddai'n berthnasol yn eich tyb chi?

| | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 4.24 A ddylai fod yn ofynnol i Gynghorau Cymuned cymwys gymeradwyo cynnig i'r perwyl hwn a hysbysu eu Hawdurdod Lleol? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.25 A ddylai fod yn ofynnol i Gynghorau Cymuned cymwys barhau i ddangos eu 'cymhwysedd' i'w Hawdurdod Lleol? | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.26 A ddylai fod modd i Awdurdodau Lleol ddirymu statws Cynghorau Cymuned cymwys os nad ydynt yn fodlon? | ☐ | ☐ | ☐ |

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.27 *Dylai trefniadau llywodraethu a thryloywder fod yn berthnasol i Gynghorau Cymuned* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.28 *Dylai fod gan y cyhoedd yr hawl i fynychu a recordio cyfarfodydd eu Cyngor Cymuned, a siarad yn y cyfarfodydd hynny* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.29 *Dylai fod yn ofynnol i Gadeirydd y Cyngor Cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol, a allai hefyd gynnwys y gofyniad adrodd a gynigiwyd ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.30 *Dylai fod yn ofynnol i Gadeirydd y Cyngor Cymuned osod amcanion perfformiad ar gyfer clerc y Cyngor Cymuned* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.31 *Dylid adolygu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli etholiadau cymunedol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Cymwysterau Etholiadol**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.32 *Dylai Aelodau sy'n gwasanaethu Awdurdodau Lleol gael dod yn Aelod o Gyngor Cymuned a pharhau a'u swydd yn yr Awdurdod Lleol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 4.33 *Ni ddylai Aelodau sy'n gwasanaethu Cyngor Cymuned ond cael bod yn aelod o un Cyngor Cymuned* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## Pennod 5: Grym i Gymunedau Lleol

Mae Pennod 5 yn egluro sut y gall cymunedau ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol mewn cydymdrech, a sut y gall pobl ddiogelu tir ac eiddo o werth cymunedol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy roi nifer o hawliau i gyrff cymunedol y cânt eu harfer mewn perthynas â gwasanaethau ac asedau.

**Cyrff Cymunedol**

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 5.1 Ydych chi'n cytuno y dylai Cyrff Cymunedol orfod sefyll prawf cymhwysedd cyn iddynt gyflawni rôl fwy gweithredol yn cyflenwi gwasanaethau neu'n prynu asedau? | ☐ | ☐ | ☐ |

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:<br>*Byddai angen i gyrff cymunedol ddangos:* | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.2 *Safonau llywodraethu priodol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 5.3 *Safonau priodol o ran rheolaeth ariannol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 5.4 *Safonau priodol o ran bod yn agored a thryloywder* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 5.5 *Aelodaeth leol gynrychioliadol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

5.6 A oes unrhyw brofion 'cymhwysedd' eraill fyddai'n berthnasol yn eich tyb chi?

**Cyfranogiad Cymunedol**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.7 *Dylai cyrff cymunedol allu gofyn am gael cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau lleol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 5.8 *Dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymateb i'r ceisiadau hyn* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

5.9 Beth yw rôl Aelodau Etholedig o ran hwyluso ceisiadau am gyfranogiad cymunedol?

**Trosglwyddo Asedau**

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.10 *Dylai cyrff cymunedol allu cychwyn y broses o drosglwyddo asedau o Awdurdod Lleol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 5.11 *Dylid rhoi'r hawl i gyrff cymunedol gael y 'cynnig cyntaf' am asedau cymunedol sydd ar y farchnad breifat* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

5.12 Beth yw rôl Aelodau Etholedig o ran hwyluso ceisiadau i drosglwyddo asedau cymunedol?

| | Dylai | Na ddylai | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 5.13 A ddylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio a chadw cofrestr o fuddiannau cymunedol? | ☐ | ☐ | ☐ |

## Pennod 6: Llywodraethu Corfforaethol a Gwella

Mae Pennod 6 yn trafod y dulliau gorau o gefnogi Awdurdodau Lleol er mwyn gwella eu gallu a'u capasiti corfforaethol. Credwn mai arweinyddiaeth effeithiol yw'r ysgogiad pwysicaf er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gallu darparu canlyniadau cynaliadwy i ardaloedd lleol.

| Llywodraethu Corfforaethol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
| 6.1 *Dylid cynyddu'r gyfran o aelodau annibynnol sy'n eistedd ar Bwyllgor Archwilio Awdurdodau Lleol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.2 *Dylai Cadeirydd Pwyllgor Archwilio Awdurdodau Lleol fod yn aelod annibynnol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.3 Pa gyfran o'r Pwyllgor Archwilio ddylai fod yn annibynnol? | O leiaf 2 o bobl | 1/4 y Pwyllgor | 1/3 y Pwyllgor | Arall | Ddim yn gwybod |
| | ☐ | ☐ | ☐ | Nodwch | ☐ |
| 6.4 Beth yw'r sail resymegol dros eich atebion? | | | | | |

| Hunanasesu ac Adolygu gan Gymheiriaid | | | |
|---|---|---|---|
| 6.5 Ydych chi'n cytuno mai'r Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am berfformiad a chyflawniad effeithiol, ac sydd hefyd yn gyfrifol am fethiant gwasanaeth neu fethiant corfforaethol? | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod |
| | ☐ | ☐ | ☐ |

| I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Heb Gytuno nac Anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n Gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.6 *Mae hunanasesu yn fecanwaith priodol y gall sefydliadau ei ddefnyddio i ystyried lefelau eu capasiti a'u gallu presennol* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.7 *Mae Adolygiad gan Gymheiriaid yn fecanwaith priodol y gall sefydliadau ei ddefnyddio i herio'r hunanasesiad hwn* | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| Dylid ystyried y canlynol mewn hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid: | Dylid | Na ddylid | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| 6.8 Gweledigaeth Strategol i'r Awdurdod | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.9 Cynllunio corfforaethol, gan gynnwys rheolaeth ariannol | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.10 Trefniadau llywodraethu | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.11 Ansawdd ac amseroldeb gwybodaeth reoli a gwybodaeth am wasanaethau | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.12 Arweinyddiaeth, recriwtio, datblygu a chadw talent | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.13 Cydraddoldeb ac amrywiaeth | ☐ | ☐ | ☐ |
| 6.14 Effeithlonrwydd | ☐ | ☐ | ☐ |
